



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

**GCD Wylfa Newydd:**

**Cyf PINS: ENO10007**

**Cyflwyniad Terfyn Amser 1**

**Crynodeb o Sylwadau Perthnasol**

**Swyddfa Rheoli Prosiect Ynys Ynni**

**9 Tachwedd, 2018**

## **CRYNODEB O SYLWADAU PERTHNASOL – CYNGOR SIR YNYS MÔN.**

Mae CSYM yn cefnogi datblygiad Wylfa Newydd mewn egwyddor. Gallai fod yn gyfle digyffelyb, yn amodol ar fesurau rheoli priodol. Er hynny, ni chefnogir y datblygiad ar unrhyw gost.

Mae risgiau a thebygolrwydd effeithiau uniongyrchol yn uwch yng nghymunedau Gogledd Ynys Môn sydd yn agos i'r safle. Mae CSYM am weld mesurau lliniaru ac iawndal yn cael eu canolbwyntio ar yr ardaloedd ble bydd yr effeithiau ar eu gwaethaf.

Mae CSYM yn dymuno i'r materion a amlygir isod ffurfio prif ffocws yr Ymchwiliad.

**PRIF SAFLE WYLFA NEWYDD** – Mae angen rheoli, lliniaru neu wneud yn iawn am effeithiau ar amgylcheddau hanesyddol a naturiol, cymunedau cyfagos, y dirwedd, rheoli gwastraff a deunyddiau, risg o lifogydd oddi ar y safle, ansawdd dŵr ymdrochi, llwch ac ansawdd aer, sŵn a dirgryniad.

**CYFLOGAETH LEOL, SGILIAU A'R GADWYN GYFLENWI** – Mae angen sicrwydd ynglŷn â sut y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd swyddi lleol a chadwyn gyflenwi (cyfnod adeiladu a gweithredol).

**DADLEOLI GWEITHLU LLEOL** - Mae angen sicrwydd er mwyn sicrhau y bydd effeithiau niweidiol sylweddol ar fusnesau yn cael eu hosgoi neu eu rheoli.

**TAI A LLETY GWEITHWYR ADEILADU** – Nid yw Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu PNH yn addas i bwrpas. Nid yw capasiti llety yn lleol yn ddigonol i ymdopi â'r mewnlifiad heb gael effaith ar lety preswyl, ymwelwyr a'r sector rhent preifat.

**CAMPWS LLETY DROS DRO AR Y SAFLE** – Nid yw niferoedd gwelyau a'r dewis o safle wedi cael eu cyfiawnhau'n iawn. Os gellir cyfiawnhau'r llety arfaethedig ar y safle bydd rhaid cael darpariaeth hamdden a gwasanaethau digonol i gwrdd â'r galw disgwylidig.

**PRIFFYRDD A THRAFNIDIAETH** – Mae'n holl bwysig fod

- (i) y cyfleuster Dadlwytho Morol;
- (ii) gwelliannau oddi ar lein i'r A50525; a
- (iii) chyfleuster Parcio a Theithio Dalar Hir;

yn cael eu cwblhau yn gynnar. Mae angen cyfleusterau mewn lleoliadau strategol eraill e.e. gwasanaethau bws gwennol cadarn. Mae'n hanfodol cael dull o dalu iawndal am ddifrod posib i briffyrdd, gan fynd i'r afael ag effeithiau ar y rhwydwaith traffig lleol a chynnal gwydnwch.

**TWRISTIAETH** – y cynhyrchydd economaidd unigol mwyaf arwyddocaol i Ynys Môn, ac ar hyn o bryd bernir bod effeithiau'r cynigion presennol ar y diwydiant yn annerbyniol. Mae angen ymagwedd ragweithiol er mwyn amddiffyn a diogelu'r ddarpariaeth, diwydiant, llety, delwedd a chanfyddiad presennol.

**IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT** – mae hyn yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r prosiect. Rhaid i'r prosiect ddarparu mesurau lliniaru effeithiol ar gyfer :-

- (i) effaith y gweithlu adeiladu ar yr Iaith Gymraeg mewn cymunedau lleol;
- (ii) cymeriad ieithyddol ysgolion;
- (iii) effaith ar weithgareddau ieuencid a theuluol, yn arbennig yng Ngogledd Ynys Môn.

Yn ogystal, mae CSYM yn dymuno gweld nifer o bryderon ynglŷn â datblygiadau cysylltiedig yn cael sylw, yn cynnwys:-

- (i) perygl o lifogydd, effeithiau ecolegol ac effaith ar y briffordd leol yn y cyfleuster **Parcio a Theithio Dalar Hir**;
- (ii) rheoli symudiadau traffig o **Ganolfan Logisteg Parc Cybi**;
- (iii) datrysiadau dylunio ar gyfer **Cyfleusterau Oddi ar Safle'r orsaf bŵer**; a
- (iv) perygl o lifogydd ac effeithiau treftadaeth posib o ganlyniad i **welliannau oddi ar lein i briffordd yr A5025**.

Mae'r DCO a'r dogfennau rheoli, gan gynnwys y cytundeb adran 106 yn hanfodol i sicrhau fod cynigion, mesurau lliniaru ac iawndal yn ddigonol a bod modd eu cyflenwi. CSYM yw'r corff sy'n gyfrifol am negodi a pharatoi'r ymrwymadau cynllunio adran 106 terfynol ac mae'n disgwyl y bydd ganddo rôl arweiniol wrth lunio'r gofynion DCO.

**DIWEDD**



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

**Wylfa Newydd DCO:  
PINS Ref: ENO10007  
Deadline 1 Submission:  
Summary of Relevant Representation**

**Energy Island Programme Management Office**

**9 November, 2018**

## **SUMMARY OF RELEVANT REPRESENTATION - ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL.**

The IACC is supportive, in principle, of the Wylfa Newydd development. It is, potentially, an unprecedented opportunity, subject to appropriate controls. Support for the proposal does not, however, come at any cost.

The risks and likelihood of direct impacts are greatest for the communities of North Anglesey in proximity to the site. IACC requires that mitigation and compensation measures are concentrated in areas where impacts will be greatest.

The IACC wishes to see the issues highlighted below forming the main focus of the Examination.

**WYLFA NEWYDD MAIN SITE** - Impacts on historic & natural environments, neighbouring communities, the landscape, waste and materials management, off-site flood risk, bathing water quality, dust and air quality, noise and vibration, the impacts of which need to be managed, mitigated or compensated for.

**LOCAL EMPLOYMENT, SKILLS & SUPPLY CHAIN** – Certainty is required on how local jobs and supply chain opportunities will be maximised (construction and operation).

**LOCAL LABOUR DISPLACEMENT** – Certainty is required to ensure significant adverse impacts on businesses will be avoided or managed.

**HOUSING & CONSTRUCTION WORKER ACCOMMODATION** - HNP's Construction Worker Accommodation Strategy is not fit for purpose. There is insufficient local capacity to accommodate influx without impacting on residential, visitor, and private rented accommodation.

**ON-SITE TEMPORARY ACCOMMODATION CAMPUS** - Bed-space numbers and site selection have not been properly justified. If the proposed accommodation on site can be justified there will need to be adequate leisure and service provision to meet expected demand.

**HIGHWAYS & TRANSPORTATION** – Early completion of

- (i) the Marine Off-loading Facility;
- (ii) A5025 off-line improvements; and
- (iii) Dalar Hir Park and Ride;

is imperative. Facilities at other strategic locations and e.g. robust shuttle bus services are needed. Means of compensating for potential damage to highways, addressing impacts on the local traffic network and maintaining resilience are essential.

**TOURISM** - the single most significant economic generator for Anglesey, upon which the impacts of current proposals are deemed unacceptable. A proactive approach is required to protect and safeguard the existing provision, industry, accommodation, image and perception.

**WELSH LANGUAGE & CULTURE** - is a 'Golden Thread' running through the project. Proposals must provide effective mitigation for:-

- (i) impacts of the construction workforce on Welsh language within local communities;
- (ii) linguistic character of schools;
- (iii) impacts on youth & family activities, particular in North Anglesey.

IACC also wishes to have a range of associated development concerns addressed, including:-

- (i) flood risk, ecological, and local highway impacts at **Dalar Hir Park & Ride**;
- (ii) regulation of traffic movements from the **Parc Cybi Logistics Centre**;
- (iii) design solutions for the **Off Site Power station Facilities**; and
- (iv) flood risk and potential heritage impacts of **the A5025 off-line highway improvements**.

The DCO and control documents, including the section 106 agreement are critical to ensuring that proposals, mitigations and compensations are adequate and deliverable. The IACC is the body responsible for negotiating and finalising the section 106 planning obligation and expects to also have a leading role in shaping the DCO requirements.

**END**